# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## 15 RHAGFYR 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, P.M. Edwards, W.T. Evans, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, J.E. Williams a D.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu,
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol,
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd,
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau,
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd,
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

**Rhith-Gyfarfod:- 10:00yb - 10:55yb**

- [SYLWER: Dywedwyd wrth y Cadeirydd nad oedd y Gyrrwr mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr Agenda yn bresennol felly newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda er mwyn ystyried Eitem 8, cyn Eitem 7. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio mae'r cofnodion hyn yn adlewyrchu trefn y materion ar Agenda'r cyfarfod.]

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Fox a J. Jones. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Mr David Bizby, Cynrychiolydd Heddlu Dyfed Powys.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.I. Jones | Eitem 8 ar yr Agenda<br>Cais am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat - Mr Emyr Wyn Davies | Mae'n adnabod y gyrrwr. |

### 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

#### 3.1. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 16EG TACHWEDD, 2021.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu "A" oedd wedi ei gynnal ar 16 Tachwedd, 2021 yn gofnod cywir.**

**3.2. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 21AIN MEDI, 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "B" a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021, gan eu bod yn gywir.**

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 23AIN MEDI, 2021.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yna ddyfyniad anghywir yn Eitem 14 y Cofnodion a oedd yn nodi:-

“Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Alyufrus yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol”

Dylai'r frawddeg ddarllen:-

**“Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Alyufrus yn cael ei wrthod.”**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar y newid uchod, lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021, gan eu bod yn gywir.**

## 5. ADOLYGIAD O UCHAFSWM TABL PRISIAU CERBYDAU HACNAI.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am gais a dderbyniwyd i gynyddu uchafswm y tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai. Roedd y cais yn cynnig ailstrwythuro uchafswm y tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai fel a ganlyn:-

1. cynyddu'r tâl cychwynnol ar y mesurydd o £0.60c ar Dariff 1, Tariff 2, a Thariff 3.

2. cynyddu'r Taliadau Ychwanegol ar gyfer cerbydau sy'n cario 5-8 o deithwyr. Ar gyfer pob teithiwr sy'n fwy na PHEDWAR codi tâl o£1 am bob teithiwr (Ar gyfer Teithwyr 5-8). Mae hyn yn gynnydd o £0.75 y pen.

3. cynyddu'r ffi halogi am faeddu'r Cerbyd i £60. Mae hwn yn gynnydd o £10.00

4. cynyddu'r Ffi Archebu i £5.00 (os yw'r daith yn cychwyn mwy na 4 milltir o ganolfan y gweithredwr). Mae hyn yn gynnydd o £2.00 ac mae hefyd yn newid pellter y daith o fwy na 5 milltir i fwy na 4 milltir.

5. Bydd y pris Tariff 1 ar y mesurydd yn cael ei ddyblu ar gyfer hurio sy'n cychwyn Ddydd Nadolig a Dydd Calan. Bydd hyn yn parhau a bydd yn seiliedig ar y tariff y cytunwyd arno ar gyfer Tariff 1.

Dywedwyd mai'r tro diwethaf y newidiwyd y tariff oedd mis Mai 2011 ac oherwydd yr argostau cynyddol a ysgwyddwyd gan y fasnach dacsis, derbyniwyd cais i gynyddu uchafswm y tabl prisiau presennol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Adran 65 Tabl Prisiau Cerbydau Hacnai

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fanylion am ystadegau a dangosyddion sy'n berthnasol i'r fasnach dacsis ers 2011 a oedd yn cynnwys y cynnydd mewn costau tanwydd, isafswm cyflog, premiymau yswiriant ac yn fwy diweddar y cynnydd yng nghostau cerbydau, cydrannau, nwyddau a gwasanaethau ers Brexit a'r Pandemig. Wrth ystyried y wybodaeth a ddarparwyd, dywedwyd bod y sefyllfa gyffredinol yn dangos gostyngiad ariannol clir ac amlwg yn y fasnach dacsis yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi bod yn gweithredu ar golled ers y cynnydd diwethaf yn 2011.

Bu'r Aelodau yn ystyried uchafswm y tabl prisiau presennol ar gyfer cerbydau hacnai a'r ailstrwythuro arfaethedig fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau yr ymgynghorwyd â 550 o aelodau o'r fasnach dacsis yn Sir Gaerfyrddin ar uchafswm y tabl prisiau arfaethedig ar gyfer cerbydau hacnai, cafwyd 80 o ymatebion a dywedodd 79 ohonynt eu bod yn hapus â'r cynnydd arfaethedig yn y tariff. Yn ogystal, cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar lafar o sylwadau'r ymatebwyr.

Cyfeiriwyd at yr ymatebion a gafwyd ynglŷn â'r gyfradd ar gyfer Noswyl Nadolig/Dydd Nadolig a Nos Galan/Dydd Calan. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch diwygio'r tariff, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uwch Swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor na fyddai unrhyw welliannau yn ystod y cam hwn wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad cychwynnol ag aelodau o'r fasnach dacsis felly, awgrymwyd y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus yn gyfle i aelodau'r cyhoedd a'r fasnach dacsis ddarparu unrhyw ddiwygiadau a awgrymir i uchafswm y tabl prisiau ar gyfer cerbydau hacnai drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus. Yn unol â hynny, byddai canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor maes o law.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i gyflwyno sylwadau o blaid ei gais o flaen y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**5.1 ad-drefnu uchafswm y tabl prisiau presennol ar gyfer teithiau Cerbydau Hacnai i ddarparu ar gyfer yr argostau cynyddol i berchenogion tacsis;**

**5.2 bod y diwygiadau i'r tabl prisiau presennol fel y nodir yn yr adroddiad yn cael eu cyhoeddi yn y papurau newydd lleol, gan roi 14 diwrnod i unrhyw unigolion i gyflwyno gwrthwynebiadau, yn unol ag Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau, caiff y tariffau eu rhoi ar waith**

**6. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**7. TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DANIEL JOHN VICTOR JOHNS.**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd Mr Johns yn gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith: -

**PENDERFYNWYD mynd ymlaen i ystyried yr eitem ar yr agenda yn absenoldeb Mr John.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Daniel John Victor Johns o 10 Ffordd y Road, Rhydaman, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr John yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Daniel John Victor Johns yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**8. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR EMYR WYN DAVIES.**

[SYLWER: Ar yr adeg hon, bu i'r Cynghorydd H.I. Jones ddatgan buddiant a gadawodd y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y mater a phenderfynu arno]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Emyr Wyn Davies, 23 Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Emyr Wyn Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Emyr Wyn Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**